

Cryfhau Ymgysylltu â Dysgwyr mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Matrics Hunanwerthuso
Darparwr/Partneriaeth ac
Teclyn Cynllunio Gweithredu



Cynhyrchwyd yr Teclyn hwn i gefnogi darparwyr Dysgu Oedolion yn y
Gymuned trwy Gymru i ddatblygu eu dull o ymgysylltu â dysgwyr.

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE **L&W**

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cynnwys y Pecyn

Dechreuwch yma:
Clicio drwy bob adran i ymchwilio'r Teclyn Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

03	Adran 1: Am y Teclyn Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer Dysgwyr Oedolion yn y Gymuned
11	Adran 2: Ymgysylltu â Dysgwyr mewn Dysgwyr Oedolion yn y Gymuned – cyd-destun ymchwil
18	Adran 3: Matrics Hunan-werthuso a Theclyn Cynllunio Gweithredu



Adran 1: Ynglŷn â'r Teclyn Hunanwerthuso a Chynllunio Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu â Dysgwyr

Mae'r Teclyn Ymgysylltu â Dysgwyr wedi cael ei ddatblygu i'ch galluogi i werthuso sut yr ydych yn ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau ar hyn o bryd yn strategol a gweithredol, ac i ddynodi camau i gryfhau eich dull ymhellach.

Pam bod y Teclyn wedi cael ei ddatblygu?

Cynhyrchwyd yr Teclyn hwn i gefnogi darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned trwy Gymru i ddatblygu eu dull o ymgysylltu â dysgwyr. Fe'i datblygwyd i gefnogi'r sector i gydymffurfio â Chod Ymgysylltu â Dysgwyr cenedlaethol Medr ('y Cod'), sy'n berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol. Ond, nid dim ond cefnogi cydymffurfio yw ei nod.

Mae'r Teclyn yn nodi model ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gweithredu sydd wedi ei seilio ar ymrwymiad hirhoedlog dysgu oedolion yn y gymuned i rymuso dysgwyr a chymunedau, nodweddion a chryfderau unigryw ymarfer dysgu oedolion yn y gymuned a'r modd y mae'n cael ei gyflwyno, ac anghenion y dysgwyr hynny.



Nodyn am y derminoleg

Mae'r Cod yn diffinio ymgysylltu â dysgwyr fel a ganlyn:

Mae ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cymryd rhan pan fydd eu darparwr yn gwneud penderfyniadau perthnasol
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwr
- rhoi eu barn ar yr addysg a roddir iddynt a materion sydd o bwys neu o ddiddordeb iddynt



Mae'n defnyddio 'ymgysylltu â dysgwyr' fel term generig i gwmpasu gweithgareddau ar draws pob math o ddarparwr addysg drydyddol. Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, mae'r termau 'llais y dysgwr' a 'chynnwys dysgwyr' yn cael eu defnyddio'n aml ar gyfer y gweithgareddau hyn, tra bod 'ymgysylltu â dysgwyr' yn nodweddiadol yn disgrifio'r broses o ddwyn oedolion yn ôl i ddysgu nad ydynt yn cymryd rhan ar hyn o bryd.

Er mwyn bod yn gyson gyda'r cyd-destun polisi presennol, mae'r term 'ymgysylltu â dysgwyr' wedi cael ei fabwysiadu trwy'r adnodd hwn. Dylid cymryd ei fod yn golygu 'llais y dysgwyr' a 'chynnwys dysgwyr' yn y cyd-destun hwn.



Sut mae'r Teclyn wedi cael ei ddatblygu?

Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Medr i weithio gyda darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned i gyd-greu'r adnodd.

Mae'n defnyddio tystiolaeth a dealltwriaeth o:

- Cyfarfod cychwynnol ar-lein o grŵp cyngori strategol y prosiect.
- Adolygiad cyflym o dystiolaeth gyhoeddedig o ymchwil ac ymarfer cyfredol am ymgysylltu â dysgwyr wrth lunio penderfyniadau mewn dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, ynghyd â modelau a allai fod yn ddefnyddiol o rannau eraill o Ewrop.
- Deg cyfweiliad manwl gyda darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, a ddewiswyd i ddangos amrywiaeth o ymarfer sy'n datblygu o ran ymgysylltu â dysgwyr ar lefel darparwr a Phartneriaeth.
- Dau weithdy wyneb yn wyneb i ddarparwyr, i adolygu'r adnodd a rhoi dealltwriaeth ac awgrymiadau ar gamau allweddol o'i ddatblygiad.
- Adborth manwl gan bedwar o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a wnaeth dreialu'r matrices hunanwerthuso drafft a'r teclyn cynllunio camau gweithredu.

Trwy'r gweithgareddau hyn, dynodwyd themâu a phynciau allweddol ac fe ddatblygwyd cynnwys y Teclyn a chytunwyd arnynt. Cynhyrchodd yr adolygiad o dystiolaeth a'r cyfweiliadau â darparwyr hefyd wybodaeth am fodelau ac enghreifftiau o'r ymarfer presennol sy'n cael eu cynnwys yn Adran 2.

[1] Mae'r Teclyn yn adlewyrchu deuddeg Egwyddor Hunanwerthuso a ddatblygwyd gan Estyn a QAA Cymru.

[2] Medr (2026) Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.



Beth mae'r Teclyn yn ei gynnwys?

Rhennir y Teclyn yn bum parth ar lefel uchel sy'n adlewyrchu'r themâu allweddol o ran ymgysylltu â dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned

Bod yn strategol



Mae'r thema hon yn asesu eich dull cyffredinol o ymgysylltu â dysgwyr, y polisi a'r strategaeth sydd yn sail i hynny, y cyswllt â systemau a phrosesau sefydliadol ehangach, a swyddogaeth y Bartneriaeth Addysg Oedolion leol. Mae'n eich annog i ddynodi sut y gall eich dull strategol a gweithredol cyffredinol gael eu cryfhau i ymwreiddio ymgysylltu â dysgwyr a chreu'r amodau ar gyfer ymarfer mwy effeithiol.

Grymuso dysgwyr



Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol ydych chi yn gosod dysgwyr yn ganolog i ymgysylltu â dysgwyr. Mae'n eich cefnogi i archwilio sut y gallwch ddatblygu eich ymarfer i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r cyfleoedd i ymgysylltu â llunio penderfyniadau, a'u galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddod yn asiantau newid gweithredol.

Hyrwyddo cynhwysiant



Mae'r thema hon yn edrych ar gryfhau ymarfer ymgysylltu â dysgwyr i ymdrin â rhwystrau a sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu arfer eu llais, yn neilltuoel y rhai o grwpiau nad oes ganddynt ddigon o gynrychiolaeth ac sy'n wynebu heriau neilltuoel i'w hatal rhag cymryd rhan. Mae hefyd yn ystyried sut y mae ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei alluogi.

Cynyddu capasiti



Mae'r thema hon yn archwilio pa mor dda y mae tiwtoriaid, rheolwyr, staff rheng flaen a gwasanaeth yn eich sefydliad yn deall ac yn gweithredu ymgysylltu â dysgwyr. Mae'n canolbwyntio ar swyddogaethau a chyfrifoldebau ar draws y gweithlu, a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i wrando ar ddysgwyr a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

Cyflawni effaith



Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ba mor dda yr ydych yn dadansoddi, rhoi adroddiad ac yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy ymgysylltu â dysgwyr i yrru newid a gwelliant, yn ogystal â sut yr ydych yn adolygu a datblygu eich dull o ymgysylltu â dysgwyr i gynyddu ei effeithiolrwydd.

Sut mae'r Teclyn yn gweithio?

Mae'r Teclyn yn eich gwahodd i hunanwerthuso eich ymarfer presennol mewn agweddau allweddol o ymgysylltu â dysgwyr dan bob un o'r pum parth ac yna defnyddio'r canlyniadau i ddynodi blaenoriaethau datblygu a chamau gweithredu i ymdrin â'r rhain.



Mae pedwar disgrifiwr lefel ar gyfer hunanwerthuso:

Cychwynnol:

Rydym yn cydnabod yr angen i weithredu ar yr agwedd hon o ymgysylltu â dysgwyr ac rydym yn cymryd y camau cyntaf



Yn dod i'r amlwg:

Rydym wedi rhoi cynnig ar rai dulliau ar gyfer yr agwedd hon o ymgysylltu â dysgwyr ac rydym yn adeiladu ar y rhain

Sefydledig:

Mae gennym ddull cadarn yn ei le ar gyfer yr agwedd hon o ymgysylltu â dysgwyr ac mae ein hymarfer yn datblygu'n barhaus



Yn ymestyn:

Rydym yn cynnwys dysgwyr i ddatblygu, gwerthuso ac adolygu'r agwedd hon o ymgysylltu â dysgwyr yn barhaus ac mae'n gwneud gwahaniaeth amlwg ac ystyrlon i ddysgwyr



Defnyddio'r Teclyn yn effeithiol


- **Mae'r disgrifwyr yn y Matrics Hunanwerthuso a Chynllunio Gweithredu wedi eu dylunio i'ch helpu i ddynodi ble'r ydych chi ar hyn o bryd o ran pob agwedd o ymgysylltu â dysgwyr a dynodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.** Maent ar sail tystiolaeth ac yn crynhoi nodweddion allweddol ymarfer ymgysylltu â dysgwyr wrth iddo ddatblygu. Bydd y disgrifiwr i'r dde o'r un sy'n disgrifio eich sefyllfa bresennol orau yn rhoi cyfarwyddyd ac ysbrydoliaeth ar sut i symud i'r lefel nesaf.
- **Bwriad y disgrifwyr ar y lefel 'yn ymestyn' yw annog darparwyr i fod yn flaengar ac uchelgeisiol am ymgysylltu â dysgwyr fel partneriaid a gwneud gwahaniaeth gweladwy iddynt trwy ymgysylltu â dysgwyr effeithiol.** Nid yw gallu cyfeirio at ddeilliannau ar y lefel hon yn awgrymu "gwaith wedi ei wneud", ond dylai weithio fel anogaeth i archwilio sut y gallai weithio i roi hwb ymlaen i gyflawni mwy fyth.
- **Cynlluniwyd yr adran cynllunio gweithredu ym mhob parth i gofnodi blaenoriaethau datblygu a chatau i ymdrin â'r rhain.** Mae'n eich cefnogi o ran datblygiad a gwelliant parhaus, trosi canlyniadau eich hunanwerthusiad yn gamau ymarferol y cytunwyd arnynt, gydag atebolrwydd, adnoddau ac amserlenni wedi eu diffinio.
- **Mae'r Teclyn yn gweithio orau pan fydd rheolwyr ac ymarferwyr gydag ystod o safbwyntiau a phrofiadau yn ymwneud â'i lenwi.** Defnyddiwch y Teclyn fel cyfle i drafod, rhannu syniadau a chael gwybod am bethau. Yn y ffordd hon, gall cydweithwyr wrando ar ei gilydd a chymedroli cyfraniadau ei gilydd, a fydd yn helpu i gynhyrchu darlun mwy didwyll a chrwn o'ch ymarfer presennol a chynyddu ymddiriedaeth. Mae'n hanfodol hefyd i chi ystyried sut y byddwch yn cynnwys dysgwyr yn y broses hunanwerthuso, fel bod eich asesiad o ba mor effeithiol yr ydych yn ymgysylltu â dysgwyr ar hyn o bryd yn seiliedig ar eu dealltwriaeth hwy.
- **Mae'r Matrics Hunanwerthuso yn dangos taith ac yn cefnogi twf a newid.** Mae'n cydnabod na fydd darparwyr unigol yn datblygu ar draws pob parth, neu hyd yn oed o fewn pob parth, ar yr un cyflymder, a bydd eich proffil cyffredinol o ran lefel ei ddatblygiad yn anwastad. Bwriedir i hyn gefnogi trafodaethau mwy ystyriol am eich sefyllfa o ran datblygu a'ch blaenoriaethau.



Alinio gyda'r cod ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r isbynciau ym mhob parth wedi cael eu mapio mewn cymhariaeth â naw Egwyddor y Cod.

Dynododd Medr nad yw'n ofynnol i chi ddangos sut y mae eich ymrwymiad cyhoeddedig yn bodloni pob un o Egwyddorion y Cod, ond dylech fedru cadarnhau ei fod. Bwriad cysoni'r matrices â'r Egwyddorion yw cefnogi'r broses hon.



Mae'r Teclyn Ymgysylltu â Dysgwyr wedi cael ei ddatblygu i'ch galluogi i werthuso sut yr ydych yn ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau ar hyn o bryd yn strategol a gweithredol, ac i ddynodi camau i gryfhau eich dull ymhellach.





“Byddai’n help gwybod beth yw’r cam nesaf ar ôl cwrs, a’r hyn y gallai dysgu arwain ato.”

“Dylid gofyn i ddysgwyr beth fyddai’n ei gwneud yn haws i gymryd rhan cyn cynllunio cyrsiau.”

“Gall cefnogaeth gyda phethau fel cludiant, gofal plant a mynediad digidol fod y gwahaniaeth rhwng cymryd rhan neu golli mas.”

**Adborth o
Fforwm Genedlaethol Addysg Oedolion**



Adran 2: Ymgysylltu â dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned

Sut mae dysgu oedolion yn y gymuned yn wahanol

Mae Cod Ymgysylltu â Dysgwyr Medr yn weithredol ar draws pob ffurf o addysg drydyddol, ond mae'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr ymgysylltu â llunio penderfyniadau yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r system.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu hanes, sefydliadau, arferion a'r cohort o ddysgwyr ym mhob sector unigol.

Mae gan ddysgu oedolion yn y gymuned draddodiad cryf o greu mannau dysgu sy'n cefnogi unigolion i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a'r hyder personol i ddod yn ddinasyddion mwy gweithredol a chysylltiedig. Mae'n cynnig ffordd yn ôl at ddysgu a chyfranogiad cymdeithasol i oedolion nad ydyn nhw yn barod eto i ddysgu mewn lleoliadau mwy ffurfiol, sefydliadol, gan gynnwys pobl gydag ychydig neu ddim cymwysterau, ffoaduriaid, a phobl ag anableddau a chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol. Trwy ei ddull hwylusol a chyfranogol o addysgu a dysgu, gall y dosbarth dysgu oedolion yn y gymuned fod yn gyd-destun hanfodol lle gall oedolion ddechrau dod o hyd i'w llais a dysgu i ymgysylltu ymhellach.

Mae'n bwysig pwysleisio'r nodwedd sylfaenol hon, oherwydd mae diben ac arferion dysgu oedolion yn y gymuned yn golygu bod ganddo amrywiaeth o nodweddion unigryw sy'n ei osod ar wahân i fathau eraill o addysg drydyddol, ac mae ganddynt oblygiadau ar gyfer ei ddull o ymgysylltu â dysgwyr.

Er enghraifft:

- Mae'r dysgu yn digwydd mewn lleoliadau cymunedol gwasgaredig
- Mae'r cyrsiau yn aml yn fyr, a gall y dosbarthiadau fod am ychydig oriau'r wythnos yn unig
- Mae perthynas y dysgwyr â'r darparwr yn un ysgafn ac yn nodweddiadol trwy diwtor y cwrs a staff rheng flaen mewn canolfannau dysgu



- Dim ond un ymhlith nifer o ymrwymïadau eraill sydd gan oedolion sy'n dysgu yw dysgu, fel teulu, gofalu, gwaith ac iechyd, ac efallai nad yw yn brif flaenoriaeth
- Mae darparwyr yn ymwneud â'r dysgwyr presennol ond hefyd â dysgwyr posibl, felly mae pwyslais ymgysylltu â dysgwyr yn ymestyn i'r gymuned ehangach

O ganlyniad, mae strwythurau a phrosesau ffurfiol, sefydliadol o ymgysylltu â dysgwyr fel y rhai a welir yn nodweddiadol mewn colegau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch yn llai perthnasol, ac ni ddylai eu habsenoldeb gael ei ystyried yn ddifffyg o angenrheidrwydd.

Mae nodweddion ymgysylltu â dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys:

- Cesglir gwybodaeth yn aml trwy adborth anffurfiol trwy diwtoriaid a staff canolfan
- Mae canolbwynt pryderon dysgwyr yn nodweddiadol ar faterion yn ymwneud â'r cwrs y maent arno neu y byddent yn hoffi ymuno ag o, yn hytrach na phroblemau gwasanaeth ehangach
- Mae dulliau ymgysylltu byr, cyflym yn fwy perthnasol na'r rhai sy'n gofyn am ymwneud yn y tymor hwy



Dulliau o ymgysylltu â dysgwyr

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth a chyfweliadau â darparwyr, mae'r adran hon yn crynhoi'r prif ddulliau o ymgysylltu â dysgwyr a ddefnyddir mewn dysgu oedolion yn y gymuned. Nodir manteision, cyfyngiadau a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer pob dull. Rhestrir ffynonellau cyhoeddedig ar ddiwedd yr adran.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau i ymgysylltu â dysgwyr ar wahanol lefelau (unigol, cwrs, sefydliad), ac ar gamau gwahanol ar y daith ddysgu (cyn, yn ystod ac wedyn). Nid oes yr un dull unigol yn cyfleu'r darlun cyfan, ac mae'r ffynonellau yn gyson yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dulliau gwahanol a chysoni data o wahanol ffynonellau.

Amlygir nifer o themâu cyffredin o ymarfer cyfredol trwy gydol y dystiolaeth ac maent yn berthnasol ar draws yr amrywiaeth o ddulliau posibl. Dylai'r dulliau gefnogi ymgysylltu dwyieithog a sicrhau bod dysgwyr sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Dylai gwybodaeth allweddol am sut i ymgysylltu gael ei darparu yn ddwyieithog.

- **Ymwreiddio adborth dysgwyr mewn llunio penderfyniadau:** Rhan yn unig o'r broses ymgysylltu â dysgwyr yw casglu adborth gan ddysgwyr. Mae ar Ddarparwyr neu Bartneriaethau hefyd angen peirianwaith priodol i alluogi i ymateb dysgwyr fod yn sail i benderfyniadau. Mae hyn yn golygu casglu a dadansoddi data, cofnodi canfyddiadau ar y lefel briodol yn y sefydliad ac ymateb i'r hyn y mae dysgwyr wedi ei ddweud. Er mwyn i hyn ddigwydd yn gyson a thryloyw, mae angen i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu barn dysgwyr fod yn rhan o ddull cyffredinol rhesymegol a strategol o gynnwys dysgwyr wrth lunio penderfyniadau. Er enghraifft, dylai llinellau adrodd yn ôl clir fod yn eu lle ar gyfer canfyddiadau o arolygon adborth diwedd cwrs i fod yn sail i'r gwaith o gynllunio cwricwlwm a grwpiau gweithredol.



- **Cau'r ddolen adborth:** Mae angen i ddysgwyr gael gwybod pa gamau sydd wedi cael eu cymryd wrth ymateb i'w hadborth, neu os nad yw'n bosibl gweithredu, yna pam ddim. Mae methu cau'r ddolen adborth yn creu perygl y bydd dysgwyr yn torri eu cysylltiad â'r broses, oherwydd nad ydynt yn gweld sut y bydd eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth. Mae posteri a chrynodebau "Fe ddywedsoch chi, fe wnaethom ni" yn cael eu defnyddio'n eang gan ddarparwyr i gyfleu adborth i ddysgwyr.
- **Cynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n anos ymgysylltu â nhw:** Mae angen datblygu strategaethau bwriadol i gyrraedd dysgwyr rhan-amser, mewn canolfannau allgymorth, yn dysgu o bell / cymysg, mewn gwaith, dysgwyr nad yw'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, y rhai sydd â sgiliau sylfaenol prin, sydd ag anawsterau dysgu neu anabledau, neu fel arall heb hyder i ymgysylltu trwy sianeli ffurfiol arferol. Mae'r strategaethau ymarferol ar gyfer eu cynnwys yn cynnwys: gweithio gyda phartneriaid cymunedol, amseru a lleoliad cyfleus i gyfarfodydd, ad-dalu costau teithio, hyfforddiant mewn sgiliau cyfrannu, defnyddio hyrwyddwyr dysgwyr, a defnyddio iaith glir heb jargon.
- **Rhoi digon o adnoddau:** Mae ymgysylltu â dysgwyr effeithiol yn gofyn am adnoddau digonol ar gyfer elfennau fel hyfforddiant i reolwyr, tiwtoriaid a chynrychiolwyr dysgwyr i ddeall eu swyddogaethau, amser staff a llogi lleoliadau ar gyfer sesiynau ymgysylltu, a chefnogaeth weinyddol a data i ddadansoddi a rhoi adroddiad ar y canfyddiadau.



- **Sicrhau ymrwymiad yr uwch arweinwyr:** Sylfeinir ymgysylltu â dysgwyr llwyddiannus ar ymrwymiad gweladwy gan yr uwch arweinwyr. Pennaeth y gwasanaeth neu uwch reolwr arall sy'n arwain y strategaeth ac yn rhoi adroddiadau blynyddol i strwythurau llywodraethu lleol fel grŵp strategol y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.
- **Mae monitro a gwerthuso yn fwlch parhaus:** Yn gyffredinol nid oes gan ddarparwyr system ar gyfer olrhain sut y mae gweithgaredd ymgysylltu â dysgwyr yn cyfrannu at lunio penderfyniadau a newid. Bydd hyn felly yn faes allweddol i'w ddatblygu wrth i ddarparwyr weithredu'r Cod a chasglu tystiolaeth i ddangos eu hymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr sy'n cael effaith.



Dull	Manteision	Cyfngiadau	Ystyriaethau eraill
Wedi ymwreiddio yn yr addysgu a'r dysgu			
Asesu anghenion, cynefino, cynllun dysgu unigol, trafodaethau anffurfiol â'r tiwtor, cyfweliad cynnydd	Yn digwydd yn naturiol ac wedi ymwreiddio yn y broses bresennol	Yn dibynnu ar sgiliau staff a'u hymrwymiad i sicrhau defnydd cyson ar draws y ddarpariaeth	Dylai fod yn broses ddwyffordd sy'n grymuso dysgwyr i fynegi eu hanghenion a'u dewisiadau
	Yn cynnwys yr holl ddysgwyr ac yn ystyrlon iddynt	Gall dysgwyr fod yn gyndyn o godi materion anodd gyda'r tiwtor	Dylai'r cwmpas estyn tu hwnt i ansawdd yr addysgu a galluogi dysgwyr i roi sylwadau ar faterion fel hygyrchedd, amseriad cyrsiau, cyfleoedd i symud ymlaen ac ati.
	Adeiladu ar ymddiriedaeth rhwng y tiwtor a'r dysgwyr	Llai defnyddiol i gyrsiau byr	
	Wrth i hyder dysgwyr gynyddu, maent yn gallu ymgysylltu yn fwy beirniadol a chael mwy o effaith		
Ymgynghori a chasglu adborth			
Ffurflenni / arolygon adborth dysgwyr	Gellir ei weinyddu ar raddfa fawr ar draws y ddarpariaeth	Gall dysgwyr deimlo'n anghyfforddus yn rhoi adborth negyddol o flaen tiwtor	Gwell eu defnyddio ochr yn ochr ag o leiaf un dull ansoddol e.e. grŵp ffocws i archwilio materion allweddol yn ddyfnach
	Creu data y gellir ei feincnodi	Gall staff fod heb y sgiliau ymchwil i ddatblygu arolwg dysgwyr o safon uchel sy'n creu data defnyddiol	Mae cyfraddau ymateb yn gwella pan fydd dysgwyr yn llenwi arolygon yn y dosbarth yn hytrach na phan ofynnir iddynt wneud hynny'n annibynnol, ond gall cyfngiadau amser olygu nad yw hyn yn ddichonol mewn cyrsiau byr
	Gall arolygon diwedd cwrs gasglu data am ddeilliannau ehangach a gofnodwyd gan y dysgwyr	Mae cyfraddau ymateb i arolygon ar-lein yn dueddol o fod yn isel a gallant beidio â chynnwys dysgwyr sydd â sgiliau/ mynediad digidol cyfyngedig	
	Cymharol rad i'w gweinyddu, yn arbennig os gwneir hynny ar-lein	Gall fformatau ar bapur fod yn angenrheidiol i gynyddu cyfraddau ymateb ond gallant fod yn ddrutach i'w gweinyddu Risg o gyfraddau ymateb isel oherwydd 'blinder arolygon' os defnyddir y dull yn aml i gael adborth ar wahanol agweddau o'r ddarpariaeth.	
Arolygon yn canolbwyntio ar bwnc neu wedi eu targedu	Gallant greu adborth cymharol gyflym, manwl ar gwestiwn neu fater penodol	Ni ddylent ddisodli chwilio am ddarlun cynhwysfawr o farn ar draws y profiad dysgu cyfan	Yn ddefnyddiol fel un elfen o ddull ehangach, yn hytrach na phrif ddull ymgysylltu
		Risg o gyfraddau ymateb isel oherwydd 'blinder arolygon'	Yn nodweddiadol yn cael ei weinyddu'n electronig, a all allgau rhai dysgwyr
Grwpiau ffocws a fforymau	Yn werthfawr i gael adborth manwl, ansoddol	Ddim yn addas ar gyfer cynhyrchu data mesuradwy neu y gellir ei gymharu	Yn gofyn am strwythur clir a hwyluso medrus ac annibynnol
	Yn gallu archwilio materion manwl y tynnwyd sylw atynt trwy arolygon dysgwyr / ffurflenni adborth	Efallai na fydd y cyfranogwyr yn adlewyrchu croestoriad eang o'r dysgwyr	Bydd ar rai dysgwyr angen mwy o gefnogaeth a pharatoi i'w galluogi i gymryd rhan lawn
	Cyfranogol a gallant alluogi gwrando a deialog gwirioneddol	Gall ychydig o gyfranogwyr uchel eu cloch dra-arglwyddiaethu	Efallai y bydd angen hyfforddiant i staff i sicrhau hwyluso effeithiol

Dull	Manteision	Cyfyngiadau	Ystyriaethau eraill
Blychau awgrymiadau (gwirioneddol a rhithwir) a thaflenni sylwadau	Rhad Hygyrch i ddysgwyr sy'n rhan-amser neu'n wasgaredig ar draws lleoliadau cymunedol Gostwng y rhwystr i godi pryderon	Ddim yn gynrychioliadol ar ei ben ei hun Yn gofyn am wirio a chynnal a chadw parhaus	Angen eu hyrwyddo'n weithredol a bod yn rhan o strategaeth ehangach
Strwythurau cynrychiolwyr ffurfiol			
Cynrychiolwyr dysgwyr (lefel darparwr neu Bartneriaeth)	Yn gallu clywed adborth anffurfiol dysgwyr na fyddai'n dod i'r amlwg fel arall Gall cynrychiolwyr weithredu fel eiriolwyr i gymheiriaid llai hyderus Cyfle gwerthfawr i ddatblygu i gyfranogwyr unigol	Anodd ei gynnal mewn dysgu oedolion yn y gymuned oherwydd bod y criwiau yn wasgaredig ac yn newid a natur byr, cyfnodol y rhan fwyaf o'r dysgu	Argymhellir penodi dau gynrychiolydd er mwyn iddynt gefnogi ei gilydd Dylai hyfforddiant, cynefino a chefnogaeth barhaus addas gael eu cynnwys er mwyn i'r dysgwyr fedru ymgysylltu'n ystyrllon Dylai staff ystyried pa newidiadau all fod yn angenrheidiol i'w gwneud i gyfarfodydd ac ati fel bod dysgwyr yn cael gwrandawriad
Modelau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr			
Hyrwyddwyr dysgwyr / pencampwyr dysgu	Model hyblyg y gellir ei datblygu i ymgysylltu â'r grwpiau targed allweddol Effeithiol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr posibl a chasglu barn trwy bartneriaid cymunedol i siapio darpariaeth newydd Cyfranogol iawn ac yn cael ei arwain gan y dysgwyr Cyfle gwerthfawr i ddatblygu i gyfranogwyr unigol	Trosiant uchel yn debygol felly oblygiadau o ran adnoddau i wneud y model yn gynaliadwy Gall dysgwyr fod yn anodd ymgysylltu â nhw gan na fydd gan rai fawr o ddiddordeb yn y gwasanaeth tu hwnt i'w pwnc eu hunain.	Angen i'r Darparwr / Partneriaeth fod yn ymroddedig i roi annibyniaeth briodol i'r dysgwyr Dylai nifer o hyrwyddwyr / pencampwyr dysgu gael eu defnyddio i ddatblygu grŵp y gellir ei ymwreiddio yn null cyffredinol y darparwr / Partneriaeth Bydd ymgysylltu â dysgwyr sydd â'r amser a'r diddordeb i ymrwymo i'r swyddogaeth yn allweddol Dylai hyfforddiant, cynefino a chefnogaeth barhaus addas gael eu cynnwys er mwyn i'r dysgwyr fedru ymgysylltu'n ystyrllon Gall hyrwyddwyr dysgwyr / pencampwyr dysgu o bosibl gymryd swyddogaethau cynrychioliadol

Adran 3: Matrics Hunanwerthuso a Theclyn Cynllunio Gweithredu





Bod yn strategol

Dyddiad:

Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Strategaeth ac ymrwymiad Egwyddorion 1, 7			
☐ Mae ymrwymiad cyhoeddedig i ymgysylltu â dysgwyr wedi cael ei ddatblygu neu yn cael ei ddatblygu, yn unol â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. ☐ Mae strategaeth ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn bodoli ond gall fod wedi dyddio ac nad yw'n cael ei defnyddio bellach.	☐ Mae'r dull o ymgysylltu â dysgwyr yn unol â'r strategaethau a'r cynlluniau ar gyfer gwella ansawdd, datblygu gweithlu, cynllunio cwricwlwm a systemau a phrosesau eraill perthnasol. ☐ Rhoddir manylion am ofynion yn ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr mewn contractau i ddarparwyr sy'n darparu dan drefniadau comisiynu a rhyddfrefinio.	☐ Mae ymgysylltu â dysgwyr wedi ymwreiddio ar draws y sefydliad ac yn cael ei weithredu yn unol â'r strategaethau a chynlluniau perthnasol. ☐ Defnyddir ymyraethau ymgysylltu â dysgwyr wedi eu targedu i gasglu gwybodaeth i fod yn sail i weithredu i ymdrin â'r blaenoriaethau a ddynodwyd trwy archwilio, hunanwerthuso a phrosesau ansawdd a chynllunio eraill.	☐ Trwy ei strategaethau, polisiau ac arferion sefydliadol, mae'r sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i roi gwerth ar farn dysgwyr yn glir. ☐ Mae gwybodaeth gan ddysgwyr yn gyson yn siapio darpariaeth a'r cyflwyno, ac mae parodrwydd i wrando a gweithredu ar adborth heriol. ☐ Mae dysgwyr yn cael eu cynnwys fel partneriaid yn yr adolygiad blynyddol a'r gwaith datblygu parhaus ar y dull o ymgysylltu â dysgwyr.
Dulliau Egwyddorion 1, 6			
☐ Arolygon meintiol a ffurflenni adborth yw'r prif beirianweithiau i ymgysylltu â'r dysgwyr presennol. ☐ Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan ar y cyd wrth lunio penderfyniadau. Pan ddefnyddir dulliau ansoddol, ar y cyd (e.e. fforymau a grwpiau ffocws i ddysgwyr), maent yn rhai ad hoc ac mae eu cyrraedd a'r nifer sy'n cymryd rhan yn gyfyngedig. ☐ Nid oes peirianweithiau i ymgysylltu yn uniongyrchol â dysgwyr mewn mannau llunio penderfyniadau sefydliadol allweddol.	☐ Mae amrywiaeth o ddulliau o ymgysylltu â dysgwyr yn eu lle. Mae diben a'r rhesymeg tu ôl i'r gwahanol beirianweithiau wedi eu diffinio a'u deall. Nodir pa ddata fydd yn cael ei gasglu, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'r effaith a fwriedir ar ddysgu a dysgwyr. ☐ Ymgysylltir â darpar ddysgwyr i gryfhau dealltwriaeth o rwystrau rhag cymryd rhan ac i fod yn sail i gynllunio'r ddarpariaeth. ☐ Mae'r ymgysylltu'n digwydd trwy beirianweithiau fel allestyn cymunedol a pherthnasau gyda sefydliadau trydydd sector a phartneriaid cyfeirio eraill.	☐ Defnyddir ystod gymesur a chydawns o ddulliau ansoddol a meintiol o ymgysylltu â dysgwyr, fel arolygon, fforymau dysgwyr a grwpiau ffocws. ☐ Mae prosesau cynllunio cwricwlwm a chysiau ac adolygu yn cynnig peirianwaith i roi adroddiadau systematig ar adborth dysgwyr o ryngweithio anffurfiol yn y dosbarth. Rhennir y dystiolaeth a gesglir yn fewnol ar lefel darparwr neu Bartneriaeth fel sy'n briodol.	☐ Defnyddir dulliau dan arweiniad dysgwyr i gynnwys dysgwyr fel partneriaid wrth lunio penderfyniadau (e.e. fel llysgenhadon dysgwyr, pencampwyr dysgwyr). Gallant gyfrannu at siapio penderfyniadau ar gynnwys cysiau, lleoliad dosbarthiadau, amseriad, dull cyflwyno, adnoddau a'r amgylchedd dysgu ehangach.



Bod yn strategol

Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Partneriaeth Addysg Oedolion Gellir neidio dros yr is-adran hon os nad yw'r Teclyn yn cael ei ddefnyddio ar lefel Partneriaeth.			
☐ Partneriaid yn unigol yn casglu a defnyddio adborth ymgysylltu â dysgwyr, ond dulliau cydweithredol a strategol ddim yn eu lle eto ar lefel Partneriaeth.	☐ Prif gyfrifoldeb am ymgysylltu â dysgwyr yn strwythur grŵp y Bartneriaeth wedi ei ddiffinio. ☐ Mae dulliau unigol partneriaid o ymgysylltu â dysgwyr yn cael eu mapio i ddynodi dulliau, cryfderau, heriau, ac ati a'r themâu allweddol. Mae'r gwaith hwn yn sail i'r cynllunio ar gyfer gweithredu ar y cyd. ☐ Mae partneriaid yn rhannu syniadau, dulliau ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr.	☐ Mae gan y Bartneriaeth weledigaeth a strategaeth a rennir yn eu lle ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr. ☐ Y partneriaid craidd wedi datblygu ac yn defnyddio dulliau ar y cyd o ymgysylltu â dygwyr (e.e. arolwg dysgwyr blynyddol, cyfarfodydd fforwm dysgwyr) i fod yn sail i lunio penderfyniadau ar y cyd. ☐ Mae'r cynllunio ar y gweill i sefydlu Llysgenhadon Dysgu neu gynlluniau tebyg ar lefel Partneriaeth i weithredu fel pont rhwng y Bartneriaeth a'r dysgwyr / dysgwyr posibl. ☐ Mae data o weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn sail i hunanwerthusiad ar y cyd y Bartneriaeth.	☐ Tystiolaeth o weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr trwy'r Bartneriaeth yn gyson yn sail i gynllunio strategol ar y cyd. ☐ Dysgwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at lunio penderfyniadau'r Bartneriaeth trwy gymryd rhan yng ngrwpiau rheoli perthnasol y Bartneriaeth.



Cynllun Gweithredu: Bod yn strategol Dyddiad:

	Enghreifftiau o ymarfer cyfredol	Camau i'w cymryd	Cyfrifoldeb / darparwr	Adnoddau angenrheidiol	Dyddiad adolygu	Diweddariad adolygu
Strategaeth ac ymrwymiad						
Dulliau						
Partneriaeth Dysgu Oedolion						



Grymuso dysgwyr

Dyddiad:

Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth Egwyddorion 2, 3			
☐ Mae'r ymrwymiad cyhoeddedig i ymgysylltu â dysgwyr yn hygyrch i ddysgwyr.	☐ Gwybodaeth am sut y gall dysgwyr roi adborth, rhannu eu barn a chymryd rhan wrth lunio penderfyniadau yn cael ei chyfleu i ddysgwyr trwy nifer o sianeli e.e. ar-lein, mewn llawlyfrau dysgwyr a phosteri a thaflenni mewn canolfannau dysgu.Mae dibyniaeth ar ddulliau cyfathrebu goddefol.	☐ Mae gwerth peirianweithiau i ddylanwadu ar benderfyniadau yn cael eu hyrwyddo yn weithredol a chyson i ddysgwyr trwy gydol eu taith yn dysgu gan diwtoriaid, staff rheng flaen eraill a rheolwyr. ☐ Dulliau a'r negeseuon yn briodol i'r dysgwyr sy'n cael eu targedu.	☐ Y negeseuon yn amlygu ffyrdd diriaethol y mae dysgwyr wedi cael dylanwad cadarnhaol ar lunio penderfyniadau, i gynyddu diddordeb ac ymrwymiad. ☐ Dysgwyr mewn swyddogaethau fel llysgenhadon dysgwyr a phencampwyr dysgwyr i arwain wrth hyrwyddo gwerth ymgysylltu i'w cymheiriaid.Maent yn cyd-gynhyrchu dulliau cyfathrebu a'r negeseuon i gryfhau'r cyrraedd a'r perthnasedd i'r dysgwyr a dargedir.
Cefnogaeth a datblygu sgiliau Egwyddorion 2, 3, 4, 6, 8			
☐ Mae dulliau dysgu, addysgu ac asesu yn datblygu sgiliau, hyder a gallu dysgwyr i fynegi eu barn, ystyried, gwrandao ac ymateb yng nghyd-destun dysgu ac mewn bywyd yn ehangach. Ond nid yw dulliau yn seiliedig ar y cwricwlwm yn cael eu dynodi yn benodol fel cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr.	☐ Mae'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan ystyrlon wrth lunio penderfyniadau trwy wahanol ddulliau wedi ei dynodi a'i rhoi yn ei lle.	☐ Mae dysgwyr yn derbyn anogaeth ymarferol a phriodol a chefnogaeth gan diwtoriaid, rheolwyr a staff rheng flaen eraill i roi adborth, rhannu eu barn a chymryd rhan wrth lunio penderfyniadau. ☐ Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau fel fforymau dysgwyr a grwpiau ffocws yn cael eu briffio ac yn cael cefnogaeth i'w galluogi i wneud cyfraniadau ystyrlon. ☐ Rhoddir cyfle cynefino, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus briodol, gan gynnwys mynediad at unedau ag achrediad, i ddysgwyr sy'n cymryd swyddogaethau ffurfiol wrth ymgysylltu â dysgwyr (e.e. llysgenhadon dysgwyr, pencampwyr dysgu, cynrychiolwyr dosbarth, swyddogaethau Partneriaeth).	☐ Dysgwyr yn cydnabod a gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad a gânt o gymryd rhan mewn llunio penderfyniadau. ☐ Mae'r gefnogaeth a gynigir yn cael ei hadolygu yn gyson a'i datblygu wrth ymateb i adborth dysgwyr.



	Enghreifftiau o ymarfer cyfredol	Camau i'w cymryd	Cyfrifoldeb / darparwr	Adnoddau angenrheidiol	Dyddiad adolygu	Diweddariad adolygu
Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth						
Cefnogaeth a datblygu sgiliau						



Hyrwyddo cynhwysiant

Dyddiad:

Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Cyfleoedd hygyrch Egwyddorion: 4			
☐ Mae dibyniaeth ar offer adborth arferol ar draws yr holl grwpiau dysgwyr, gydag addasiadau cyfyngedig i fodloni anghenion hygyrchedd penodol.	☐ Mae data am gyfranogiad mewn cyfleoedd ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei ddadansoddi yn gyson i ddynodi pa grwpiau dysgwyr sydd yn cymryd rhan ar hyn o bryd a pha rai nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar newidynnau gan gynnwys nodweddion cymdeithasol-ddemograffig a rhai a ddiogelir, maes cwricwlwm a dull astudio.	☐ Defnyddir data meintiol ac ansoddol i gael dealltwriaeth o rwystrau sy'n atal cymryd rhan ystyrlon mewn ymgysylltu â dysgwyr sy'n cael eu hwynebu gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a bod yn sail i ddatblygu ymarfer cynhwysol. ☐ Ymgynghorir â dysgwyr i ddeall eu dewisiadau o ran y dulliau a'r offer ar gyfer eu cael i ymgysylltu â llunio penderfyniadau. ☐ Datblygir dulliau wedi eu targedu a'u teilwra i ymdrin â rhwystrau sy'n atal ymgysylltu a galluogi grwpiau dysgwyr penodol i roi adborth, rhannu eu barn a chymryd rhan mewn llunio penderfyniadau.	☐ Defnyddir llysgenhadon dysgwyr a dulliau eraill wedi eu teilwra dan arweiniad dysgwyr i ymgysylltu â grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol. ☐ Mae'r data yn dangos gwelliant mesuradwy yn lefelau'r ymgysylltu gan ddysgwyr o grwpiau a ddynodwyd fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol, yn dilyn y gweithredu i gynyddu eu cyfraniad.
Dulliau dwyieithog ac amlieithog Egwyddorion: 5			
☐ Cynigir yr holl gyfleoedd ymgysylltu â dysgwyr yn y Gymraeg ar Saesneg. ☐ Mae'r ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.	☐ Mae dwyieithrwydd wrth ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei hyrwyddo'n weithredol i ddysgwyr. ☐ Mae ymgysylltu â dysgwyr yn profi a datblygu'r galw am ddarpariaeth Gymraeg yn rhagweithiol, e.e. trwy sesiynau blasu, gweithio mewn partneriaeth. Mae dealltwriaeth o ymgysylltu â dysgwyr yn sail systematig i gynllunio a chyflawni darpariaeth Gymraeg.	☐ Mae'r cynnig dwyieithog wedi ymwreiddio yn llawn ar draws pob dull o ymgysylltu â dysgwyr. ☐ Sicrheir bod deunyddiau amlieithog i gefnogi ymgysylltu â dysgwyr ar gael wrth ymateb i geisiadau penodol.	☐ Mae dealltwriaeth glir o'r ystod o ieithoedd cyntaf a siaredir gan ddysgwyr trwy gael mynediad at y ddarpariaeth ac mae deunyddiau ymgysylltu â dysgwyr allweddol ar gael wedi eu cyfieithu i fodloni anghenion y dysgwyr. ☐ Dysgwyr yn cofnodi mewnbwn cynyddol i lunio penderfyniadau o ganlyniad i fedru cymryd rhan yn eu dewis iaith.



Cynllun Gweithredu: Hyrwyddo cynhwysiant

Dyddiad:

	Enghreifftiau o ymarfer cyfredol	Camau i'w cymryd	Cyfrifoldeb / darparwr	Adnoddau angenrheidiol	Dyddiad adolygu	Diweddariad adolygu
Cyfleoedd hygyrch						
Dulliau dwyieithog ac amlieithog						



Cynyddu capasiti

Dyddiad:

Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Rolau a chyfrifoldebau Egwyddorion: 1, 2, 3			
☐ Mae rhai rheolwyr a thiwtoriaid yn darparu gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr sydd o help, ond mewn modd tameidiog ac ad hoc heb gyfarwyddyd strategol na chadarnhau dull cyffredinol. ☐ Mae'r tiwtoriaid yn cydnabod bod dulliau ar sail cwricwlwm o ymgysylltu â dysgwyr (e.e. Cynlluniau Dysgu Unigol, adborth diwedd cwrs) yn elfennau canolog o ymarfer dosbarth effeithiol ac yn ymwreiddio'r rhain yn effeithiol wrth gyflwyno'r cwrs.	☐ Prif gyfrifoldeb am ymgysylltu â dysgwyr wedi ei ddiffinio mewn swyddogaeth reoli ☐ Yr ystod o swyddogaethau ar draws y sefydliad sy'n cynnwys cyfrifoldebau yng nghyswllt ymgysylltu â dysgwyr wedi eu mapio (e.e. tiwtoriaid, rheolwyr, staff rheng flaen eraill, staff y gwasanaeth). ☐ Disgrifiadau swyddi a chontractau cyflogaeth yn glir am gyfrifoldebau yng nghyswllt ymgysylltu â dysgwyr. ☐ Yr holl reolwyr, tiwtoriaid a staff eraill yn gwybod am werth ymgysylltu â dysgwyr, dull y sefydliad, a'u swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol yn ei hwyluso, wrth gael eu cynefino a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus fel fydd yn briodol.	☐ Tiwtoriaid a staff rheng flaen eraill yn cyfleu gwerth a manteision ymgysylltu â dysgwyr ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr i annog cyfranogiad. ☐ Rheolwyr, tiwtoriaid a staff rheng flaen eraill yn ymgysylltu'n weithredol â dysgwyr ac yn gwrando arnynt. Maent yn defnyddio tystiolaeth a dealltwriaeth o ymgysylltu â dysgwyr i eiriol ar ran dysgwyr ar lefelau strategol a gweithredol fel fydd yn briodol.	☐ Arweinwyr a rheolwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn defnyddio tystiolaeth a dealltwriaeth o ymgysylltu â dysgwyr i hyrwyddo barn a buddiannau dysgwyr a dylanwadu a herio rhanddeiliaid a llunwyr penderfyniadau mewnol ac allanol.
Dysgu a datblygu proffesiynol Egwyddorion: 7, 8, 9			
☐ Llais dysgwyr ac ymgysylltu ddim yn thema glir mewn datblygu proffesiynol parhaus.	☐ Ymarfer effeithiol o ran llais dysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei gydnabod, ei annog a'i rannu ar draws y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.	☐ Cynefino a chefnogaeth barhaus i diwtoriaid a staff eraill yn cynnwys pwyslais ar lais y dysgwyr ac ymgysylltu i ymwreiddio ymarfer cyson ac effeithiol. ☐ Datblygu proffesiynol parhaus yn cynyddu sgiliau a hyder tiwtoriaid a staff eraill yn rhagweithiol i hwyluso llais dysgwyr ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys pwyslais ar wrando ac ymateb, yn ogystal ag annog a chefnogi cyfranogiad dysgwyr.	☐ Deallusrwydd o weithgareddau llais dysgwyr ac ymgysylltu yn cael ei ddadansoddi'n systematig i ddynodi hyfforddiant ac anghenion cefnogaeth gweithlu a bod yn sail i gynnwys y datblygu proffesiynol parhaus.



Cynllun Gweithredu: Cynyddu capasiti

Dyddiad:

	Enghreifftiau o ymarfer cyfredol	Camau i'w cymryd	Cyfrifoldeb / darparwr	Adnoddau angenrheidiol	Dyddiad adolygu	Diweddariad adolygu
Rolau a chyfrifoldebau						
Dysgu a datblygu proffesiynol						

Cychwynnol		Yn dod i'r amlwg		Sefydledig		Yn ymestyn	
Dolenni adborth Egwyddorion: 2, 7							
☐ Peirianwaith rhoi adborth ffurfiol yn ei le ar gyfer rhai dulliau o ymgysylltu â dysgwyr ond bylchau ac anghysondebau yn golygu nad yw dysgwyr yn cael gwybod sut y mae eu barn wedi cael ei defnyddio fel rhan o'r patrwm arferol.		☐ Peirianwaith adborth priodol yn ei le ar gyfer pob dull o ymgysylltu â dysgwyr (ansoddol a meintiol, ffurfiol ac anffurfiol). Gwybodaeth am y dolenni adborth perthnasol yn cael ei gynnwys mewn cyfathrebiadau am gyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr.		☐ Dysgwyr yn cael gwybodaeth yn gyson ac fel rhan o'r patrwm am y ffordd y mae eu hadborth wedi cael gwrandawriad a'i ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys esbonio pam nad yw wedi bod yn bosibl gweithredu, pan fydd hynny'n wir, ac archwilio ffyrdd gwahanol o weithredu.		☐ Deialog barhaus gyda dysgwyr yn galluogi i effaith ac effeithiolrwydd camau gweithredu a gymerwyd wrth ymateb i adborth dysgwyr gael eu hasesu ac unrhyw gamau pellach i gael eu dynodi.	
Effaith ymgysylltu â dysgwyr Egwyddorion: 1, 7							
☐ Gall fod yn bosibl dynodi enghreifftiau unigol lle mae ymgysylltu â dysgwyr wedi arwain at newid, ond nid oes dull strategol cyffredinol yn ei le ar gyfer casglu a rhoi adroddiad am effaith y dystiolaeth.		☐ Prosesau yn eu lle i gofnodi sut y mae gwybodaeth a gasglwyd trwy weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr wedi cael ei defnyddio a pha wahaniaeth y mae wedi ei wneud (os o gwbl) i gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth.		☐ Gwybodaeth a gesglir o ymgysylltu â dysgwyr yn sail i gynllunio a chyflawni'r ddarpariaeth a hyn yn cael ei fonitro yn gyson ac adroddiadau yn cael eu rhoi arno. Cynllunio gweithredu ac olrhain effeithiol yn digwydd i ddeall effaith unrhyw newidiadau a wneir oherwydd ymgysylltu â dysgwyr. ☐ Prosesau cyson, strwythuredig a thryloyw yn eu lle ar gyfer adolygu tystiolaeth a gasglwyd trwy ymgysylltu â dysgwyr. Mae'r rhain yn dynodi'r lefel fwyaf addas ar gyfer rhoi adroddiad am weithredu a'i olrhain i ymateb i'r materion a godwyd yn effeithiol (darparwr, Partneriaeth neu bolisi rhanbarthol / cenedlaethol). ☐ Data ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei gysoni â data o ffynonellau eraill fel sylwadau, teithiau dysgu a monitro perfformiad a deilliannau i fod yn sail i lunio penderfyniadau.		☐ Dysgwyr yn cofnodi eu bod yn teimlo bod eu barn yn cael ei werthfawrogi ac yn cael gwrandawriad. Gallant ddynodi sut y mae eu mewnbwn wedi cael dylanwad ar benderfyniadau. ☐ Mae tystiolaeth y gellir ei dangos o welliannau i ddeilliannau dysgwyr a'u profiad oherwydd ymgysylltu effeithiol â dysgwyr.	

Cyflawni effaith			
Cychwynnol	Yn dod i'r amlwg	Sefydledig	Yn ymestyn
Effeithiolrwydd dulliau Egwyddorion: 7, 9			
Gwerthuso systematig cyfyngedig o effeithiolrwydd dulliau ymgysylltu â dysgwyr.	Gwerthuso, adolygu a datblygu ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei gynnwys yng nghynllun datblygu ansawdd y darparwr. Dangosyddion perfformiad wedi cael eu cytuno i fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol y gall dulliau gwahanol o ymgysylltu â dysgwyr gyrraedd ac ymgysylltu â dysgwyr, e.e. cyfraddau ymateb, dulliau mesur cyfranogiad.	Effeithiolrwydd dulliau o gasglu llais dysgwyr a'r ymgysylltu yn cael eu gwerthuso yn gyson a'r dulliau yn cael eu hadolygu a'u datblygu i gryfhau ymarfer. Dysgwyr a thiwtoriaid yn ymwneud ag adolygu a gwerthuso dulliau ac offer ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr.	Dulliau o ymgysylltu â dysgwyr yn cael eu hadolygu yn gyson a'u trafod gyda dysgwyr, tiwtoriaid, rheolwyr ac ar lefel llunio penderfyniad strategol i wella deilliannau. Dealltwriaeth o ddulliau o ymgysylltu â dysgwyr o Gymru gyfan, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn cael eu defnyddio i ddatblygu a threialu dulliau newydd a gwella ymarfer. Pan fydd data meincnodi ar gael, hwn yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ystyried beirniadol a bod yn sail i ddatblygiad.



	Enghreifftiau o ymarfer cyfredol	Camau i'w cymryd	Cyfrifoldeb / darparwr	Adnoddau angenrheidiol	Dyddiad adolygu	Diweddariad adolygu
Dolenni adborth						
Effaith ymgysylltu â dysgwyr						
Effeithiolrwydd dulliau o ymgysylltu â dysgwyr						

Cyfeiriadau

- Grymuso Llysgenhadon Dysgwyr (Sefydliad Dysgu a Gwaith / Taith, 2025)
- The ENHANCE Matrix Background Paper (ENHANCE project / SOLIDAR, 2024)
- Research on Student Partnership in Welsh Higher Education and Further Education Institutions (OB3, 2020)
- Strategaethau Cynnwys Dysgwyr: Canllaw i ddarparwyr dysgu gydol oes yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2010)
- Effeithiolrwydd Strategaethau Cynnwys Dysgwyr Mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu yn y Gwaith (Estyn, 2014)
- Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Medr, 2025)
- Estyn / Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA) – Egwyddorion hunanwerthuso





Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gorff polisi ac ymchwil annibynol gyda ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial. Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer. Gweithiwn gydag ystod eang o bartneriaid a chyllidwyr i gyflawni ein gweledigaeth o gymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial ac uchelgais drwy gydol eu bywyd.

Mae Medr yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb, ac ymgysylltiad yn greiddiol iddi.

<https://sefydliaddysguagwaith.cymru/cy/>

<https://www.medr.cymru/cy/>

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE **L&W**

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research